Y CYNGOR

Cofnodion o’r cyfarfod a gynhaliwyd am 1.00pm Ddydd Iau 19 Mawrth 2026 yn Quay Place, campws PCYDDS Birmingham

**Aelodau Cyngor PCYDDS a PC:**
Emlyn Dole (Cadeirydd)
Yr Athro Elwen Evans CB (Is-Ganghellor)
Timothy Llewelyn
Nigel Roberts
Dr Liz Siberry

**Aelodau Cyngor PC:**
Dr Stuart Robb

**Aelodau Cyngor PCYDDS:**
Richard Bills
Jonathan Chitty
Dr Tracy Cruickshank
Gwyneira Davies
Jonathan Pugh
Katrin Shaw

**Yn gweinyddu:**
Sarah Clark, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chlerc i’r Cynghorau
Sarah Evans, Prif Swyddog Cyllid
Peter Mannion, Prif Swyddog Gweithredu
Dr Chris Marshall, Pennaeth Staff
Yr Athro Conny Matera-Rogers, Pro Is-Ganghellor (Rhyngwladol)
Jane O’Rourke, Prif Swyddog Pobl
Lynwen Davies (Cyfieithydd)
Margaret Williams, Ysgrifennydd

| Cofnod | Prif Bwyntiau Trafod |
|---|---|
| 26.11 Ymddiheuriadau | Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan yr aelodau canlynol: yr Athro Kyle Erickson, Geraint Evans, Rowland Jones, Jacqui Kedward, Chris Martin, Richard Norton, Emlyn Schiavone, Jennifer Taylor, Iwan Thomas a Deris Williams; ac o'r swyddogion Vanessa Cashmore, Sharron Lusher a'r Athro Mirjam Plantinga. |
| 26.12<br>Datganiadau o Ddiddordeb | DERBYNIODD y Cyngor y Datganiadau o Ddiddordeb a nodwyd yn adroddiad y Clerc (JC04880.<br><br>Datganodd Dr Stuart Robb ei ddiddordeb mewn perthynas ag eitem JCO492a fel Cyfarwyddwr UWRET. |
| 26.13 Adroddiad y Cadeirydd | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad y Cadeirydd (JCO489).<br><br>Gwnaeth y Cadeirydd:<br><br>(a) dalu teyrnged i Dr Elizabeth Siberry a oedd yn mynychu ei chyfarfod Cyngor olaf, gan nodi ei chyfraniad enfawr fel aelod annibynnol o'r ddau Gyngor ac fel Cadeirydd y Pwyllgorau Taliadau ac Enwebiadau a Llywodraethu;<br><br>(b) crynhoi cyfarfod diwethaf Cadeiryddion Prifysgolion Cymru (ChUW) a oedd wedi cynnwys cyflwyniadau gan Medr a Llywodraeth Cymru ar gyllid y sector AU; etholiadau'r Senedd sydd ar ddod; a recriwtio myfyrwyr ar draws y sector. |
| 26.14<br>26.23 adroddiad yr Is-Ganghellor | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad yr Is-Ganghellor (JCO490).<br><br>Gwnaeth yr Is-Ganghellor:<br><br>(a) ddiweddaru aelodau ar y gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd ar strwythur presennol a dyfodol Grŵp PCYDDS, a'r camau sy'n cael eu cymryd i sicrhau ei fod wedi'i ffurfweddu'n briodol i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd sydd ar gael i gefnogi dysgwyr sy'n mynd i mewn i'r sector trydyddol integredig yng Nghymru;<br><br>(b) adrodd ar drafodaethau cyfredol yn y sector ar gynaliadwyedd ariannol, ffocws Medr ar lywodraethu addysg bellach ac etholiadau i'r Senedd sydd i ddod;<br><br>(c) adrodd yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd Prifysgolion Cymru ei bod wedi cwrdd â nifer o wleidyddion i drafod yr heriau sy'n wynebu'r sector AU ac y byddai'n parhau i ymgysylltu â nhw i gynrychioli buddiannau'r Brifysgol a'r sector. |
| 26.15 Diweddariad Ariannol | DERBYNIODD y Cyngor y diweddariad ariannol (JCO492a).<br><br>Adroddodd y Prif Swyddog Cyllid fod y perfformiad hyd yn hyn mewn gwarged, a oedd yn amrywiad cadarnhaol i'r gyllideb. |

| Cofnod | Prif Bwyntiau Trafod |
|---|---|
| 26.16 Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ar 5 Mawrth 2026 (JCO494).<br>DERBYNIODD y Cyngor y Gofrestr Risg Corfforaethol (JCO506). |
| 26.17 Adroddid Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ar 12 Chwefror 2026 (JCO495). |
| 26.18 Cofnodion | CYMERADWYODD y Cyngor Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Iau 22 Ionawr 2026, (JCO497a). |
| 26.19 Datganiad Caethwasiaeth Fodern | CYMERADWYODD y Cyngor y Datganiad Caethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl 2024/25 (JCO498). |
| 26.20 Gweithred y Cadeirydd | DERBYNIODD y Cyngor yr adroddiad ar Weithred y Cadeirydd (JCO501). |
| 26.21 Datganiadau o Ddiddordeb | Nododd y datgan o ddiddordeb canlynol:<br>Dr Stuart Robb – Eitem 26.25 (JCO492a) fel Cyfarwyddwr UWRED.<br>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant ychwanegol yn ystod y cyfarfod. |
| 26.22 Dyddiad y cyfarfod nesaf | Wrth gau'r cyfarfod, diolchodd y Cadeirydd staff a myfyrwyr campws Birmingham am y trefniadau a'r croeso.<br>Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 02 Gorffennaf 2026 yn Abertawe. |

.Daeth y cyfarfod i ben am 3:00 p.m